



Amcan Llesiant 13

Amgylchedd Iach a Diogel - Gwella seilwaith a chysylltedd y priffyrdd a thrafnidiaeth

Y canlynol yw ein hymrwymiaidau a'n sylwadau cynnydd diwedd blwyddyn ar gyfer yr Amcan Llesiant hwn yn ystod 2018/19.

Ymrwymiaidau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
A - Datblygu'r seilwaith priffyrdd i gyflawni blaenoriaethau ein Cynllun Adfywio		
Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn cysylltiadau seilwaith trafndiaeth strategol drwy barhau i adeiladu Ffordd Gyswllt Gorllewin Caerfyrddin; cysylltu datblygiad Cam 2 Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands a dechrau gwaith ar wella'r seilwaith priffyrdd yn Rhydaman. <i>(Cyf. 13263) MF5-2 a MF5-3</i>	✓	Mae Cam 1 y broses adeiladu yn Cross Hands i'w gwblhau erbyn diwedd Ebrill 2019. Mae'r broses Gorchymyn Prynu Gorfodol ar gyfer tir yn Cross Hands ar waith. Mae Cam 2 i fod i gychwyn ddiwedd 2019 i gyd-fynd â'r Gorchymyn Prynu Gorfodol disgwylidig a chyllid grant Llywodraeth Cymru. Mae ffordd gyswllt Gorllewin Caerfyrddin a'r gwelliannau yn Rhydaman wedi'u cwblhau. Mae'r ddau gynllun wedi cael lleihau tagfeydd traffig.
Byddwn yn sefydlu Sir Gaerfyrddin fel Canolbwynt Beicio Cymru drwy ddarparu prosiectau allweddol megis Llwybr Beicio Dyffryn Tywi. <i>(Cyf 13264) MF5-1</i>	✓	Trefnwyd cyfarfod Grŵp Strategol Corfforaethol ag is-grwpiau thematig, a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid allanol a chorfforaethol allweddol, i lunio a darparu agenda'r Strategaeth Feicio a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig. Yn ychwanegol at hyn, rydym yn parhau i symud ymlaen â phrosiect blaenllaw Llwybr Dyffryn Tywi, ac mae'r gwaith ar ran W1 wedi'i gwblhau sef llwybr rhwng Abergwili a Felin-wen. Cafodd y llwybr hwn ei agor yn swyddogol ym mis Ionawr. Mae ceisiadau am gyllid i Lywodraeth Cymru wedi eu cyflwyno a hynny mewn perthynas ag arian Teithio Llesol ac arian gan y Gronfa Drafnidiaeth Leol ar gyfer llwybr Dyffryn Tywi a'r rhwydwaith Teithio Llesol ehangach.
Byddwn yn datblygu llwybrau teithio llesol ar gyfer aneddiadau allweddol. <i>(Cyf. 13265)</i>	✓	Yn sgil cyflwyno'r Map Rhwydwaith Integredig yn llwyddiannus fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Teithio Llesol, rydym wedi llwyddo i ddenu arian sylweddol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer trafndiaeth leol i ddatblygu ein cysylltiadau cerdded a beicio. Ymysg pethau eraill, mae hyn wedi galluogi i ragor o gynnydd gael ei wneud ar ffordd gyswllt yr A4138 o Langennech i Lanelli, yn cynnwys darnau i Felin-foel ac Ysbyty'r Tywysog Philip ac ymlaen tuag at Drostre. Rydym wedi llwyddo i ddatblygu nifer o brosiectau teithio llesol gan ddefnyddio £532k o gyllid o fewn y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru. Mae cais arall ar gyfer 19/20 wedi'i gyflwyno am £1.043m a fydd yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu rhagor ar Uwchgyllun Llanelli, Llwybr Strategol Cross Hands Rhydaman, a llwybrau yng Nghaerfyrddin.
Byddwn yn diweddarau'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd i ddarparu strategaeth ar gyfer rheoli a chynnal seilwaith priffyrdd y sir. <i>(Cyf. 13266)</i>	✓	Mae ein strategaeth ar gyfer rheoli asedau priffyrdd yn datblygu drwy weithredu'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd a'r hierarchaeth rhwydwaith. Mae gwaith wedi dechrau bellach ar y Llawlyfr Cynnal a Chadw Priffyrdd a fydd yn galluogi'r strategaeth i gael ei rhoi ar waith a hynny'n unol ag amcanion cyffredinol y Cynllun

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
		<p>Rheoli Asedau Priffyrdd. Bydd angen i bolisi Llawlyfr Cynnal a Chadw Priffyrdd Sir Gaerfyrddin gyfeirio at y safonau gofynnol a'r argymhellion a ddatblygwyd gan weithgor Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd y CSS. Cafodd yr argymhellion hyn eu cymeradwyo gan CSS Cymru ar 14 Mawrth 2019. Rhagwelir y bydd y dogfennau ymarfer a argymhellir yn cael eu cyhoeddi ddechrau haf 2019 ac yn caniatáu i'r polisi lleol gael ei ddatblygu'n Llawlyfr Cynnal a Chadw Priffyrdd. Bydd hyn yn cwblhau cynnydd y 40% sy'n weddill o ran y cam hwn yn ystod 19-20. Mae'r camau gweithredu o fewn y flwyddyn wedi'u cwblhau i'r graddau mwyaf posibl yn amodol ar gyfyngiadau ehangach allbynnau'r CSS.</p>
<p>Byddwn yn datblygu, cynnal a darparu rhaglen gyfalaf cynnal a chadw 3 blynedd ar gyfer Cynnal a Chadw Priffyrdd ar sail blaenoriaeth i sicrhau bod y defnydd mwyaf effeithiol yn cael ei wneud o'r arian cyfyngedig sydd ar gael. (Cyf 13267) MF5-8</p>	✓	<p>Mae rhaglen wedi'i blaenoriaethu o osod wyneb newydd ar fwy na 37 darn unigol o ffordd ar draws y sir wedi cael ei rhoi ar waith. Bydd rhaglen dreigl 3 blynedd yn cael ei chynnal a'i hadolygu'n rheolaidd i sicrhau yr eir i'r afael â blaenoriaethau cyfredol gan gadw'r elfennau blaengynllunio i'r graddau mwyaf posibl. Wrth i gyllidebau cyfalaf neu gyllid Llywodraeth Cymru ychwanegol gael eu cadarnhau, caiff y rhaglen ei haddasu i sicrhau bod rhaglenni cyflawni effeithiol ar waith a bod cynlluniau blaenoriaeth yn cael eu rhaglennu cyn gynted â phosibl.</p>
<p>Byddwn yn datblygu, cynnal a darparu rhaglen gyfalaf cynnal a chadw 3 blynedd ar gyfer cynnal priffyrdd, cryfhau pontydd a'u hadnewyddu. Blaenoriaethu cyflawni'r cynlluniau o fewn cyfyngiadau'r adnoddau sydd ar gael. (Cyf. 13268)</p>	✓	<p>Wal gynnal Troed Y Rhiw, Rhandir-mwyn - gwaith wedi'i gwblhau. Pont Brynglas, Llangadog - gwaith cryfhau wedi ei gwblhau. Pont droed newydd i gerddwyr ym Mhont-iets wedi'i chodi a chontractwr wedi'i benodi i osod pont droed. Wal gynnal Pante - contractwr wedi'i benodi a gwaith adeiladu i ddechrau 29.04.19. Gwaith dylunio manwl ar dri chynllun adnewyddu pontydd wedi'i gwblhau, a gwaith dylunio manwl ar ddwy bont arall yn parhau. Astudiaeth ddichonoldeb i gryfhau chwe phont drwy gwblhau technegau bondio platiau. Mae'r % sydd wedi'i chwblhau wedi'i seilio ar y swm ariannol sydd wedi'i ymrwymo hyd yn hyn, mewn perthynas â'r gyllideb waith. Mae gwaith wedi'i raglennu ar gyfer ymrwymo'r gyllideb yn llawn.</p>
<p>Byddwn yn gweithio tuag at wella integreiddiad y rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus gan gynnwys gwasanaethau rheilffyrdd yn Sir Gaerfyrddin, er mwyn diwallu anghenion ein trigolion yn well. (Cyf 13269) MF5-6</p>	✓	<p>Mae cyllid wedi'i ddyrannu i ranbarth De-orllewin Cymru er mwyn datblygu ymhellach system drafnidiaeth integredig dull METRO. Er bod cyllid yn cael ei weinyddu drwy Ddinas a Sir Abertawe, mae Sir Gaerfyrddin wedi bod yn gweithio'n galed i sicrhau bod buddiannau Sirol a Rhanbarthol yn cael eu hystyried yn llawn. Yn ogystal â hyn, rydym yn ymgysylltu'n helaeth â Trafnidiaeth Cymru/Keolis Amey ynghylch y fasnachfaint rheilffyrdd newydd i fanteisio ar gyfleoedd i wella'r cynnig rheilffyrdd presennol yn y sir, yn ogystal â chyfleoedd i wella integreiddio rhyngfoddol. Mae cais i'r Gronfa Rhwydwaith Trafnidiaeth Leol o £450k wedi'i</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
		gyflwyno i Lywodraeth Cymru er mwyn ceisio gwella seilwaith trafndiaeth gyhoeddus strategol allweddol ledled y sir. Rydym yn aros am ymateb gan Lywodraeth Cymru.
Byddwn yn gwella'r seilwaith ar gyfer y defnydd o gerbydau trydan, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. (Cyf 13270) <i>MF5-6</i>	✓	Mae cyllid wedi'i dynnu i lawr a'i ddefnyddio er mwyn gosod unedau gwefru cyhoeddus newydd ym Maes Parcio San Pedr, Caerfyrddin a Maes Parcio'r Mart yng Nghastellnewydd Emlyn. Mae'r ddau safle hyn yn weithredol bellach ac mae tipyn o ddefnydd yn cael ei wneud ohonynt. Yn ychwanegol at hyn rydym wedi gosod pwynt gwefru cyflym newydd yn Nant-y-ci, Caerfyrddin. Rydym hefyd wedi llwyddo i dynnu cyllid y Cynllun Datblygu Gwledig i lawr mewn partneriaeth â Phartneriaeth Ynni Sir Gâr, ac mae hyn wedi caniatáu i Swyddog Cerbydau Trydan newydd gael ei benodi o fewn y bartneriaeth. Rydym yn gweithio gyda Phartneriaeth Ynni Sir Gâr i lunio strategaeth glir ar gyfer datblygu a hyrwyddo seilwaith Cerbydau Trydan wrth symud ymlaen. Mae'r gwaith hwn yn mynd yn dda ac mae drafft cyntaf yn cael ei ystyried gan swyddogion ar hyn o bryd. Mae ceisiadau am gyllid wedi cael eu cyflwyno i Swyddfa Cerbydau Allyriadau Isel a Chronfa Trafnidiaeth Leol Llywodraeth Cymru er mwyn cyflwyno rhwydwaith o bwytiau gwefru priodol ym meysydd parcio'r Cyngor ar draws Sir Gaerfyrddin. Mae £450k o gyllid yn cael ei geisio er mwyn gosod unedau gwefru 'cyflym' newydd - rydym yn aros am ganlyniad y ceisiadau hyn ar hyn o bryd.
Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu seilwaith priffyrdd y Sir er mwyn gwella ansawdd yr aer, yn enwedig yn Llandeilo. (Cyf 13271) <i>MF5-4</i>	✓	Rydym wedi helpu Llywodraeth Cymru â'r gwaith o ddatblygu'r broses statudol yn unol â Chanllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru.
Byddwn yn ystyried dichonoldeb datblygu llefydd i lorïau barcio dros nos yn y sir. (Cyf 13272) <i>MF5-9</i>	✓	Mae gwaith ymchwil ar y gweill ar hyn o bryd i asesu'r galw a dichonoldeb datblygu lle i lorïau barcio dros nos.
Byddwn yn parhau i gyflwyno prosiect Buddsoddi i Arbed LED ar draws seilwaith goleuadau stryd y sir. (Cyf. 13273)	✓	Mae'r prosiect LED wedi ei gwblhau bellach ac mae 12,400 o lusernau wedi'u newid i LED's pyladwy ar draws y sir. Mae'r prosiect wedi'i roi ar waith ar amser ac o fewn y gyllideb.
Byddwn yn lleihau'r ffyrdd dosbarth A sydd mewn cyflwr gwael (PAM/020) (Canlyniad 2017/18 - 4.1% / Targed 2018/19 - 4.1%)	x	Mae 5.2% o ffyrdd A mewn cyflwr gwael (parth coch) ar gyfer 2018/19; nid yw hyn yn cydymffurfio â'r targed ac mae'n ddirywiad ers y flwyddyn flaenorol. Mae gan Sir Gaerfyrddin yr ail rwydwaith priffyrdd mwyaf yng Nghymru sy'n cynnwys 250km o ffyrdd dosbarth 'A', ac er bod cyllid diweddar gan Lywodraeth Cymru i adnewyddu ffyrdd wedi helpu, mae lefelau buddsoddi cyffredinol a diffyg cyllid hirdymor ar gyfer cynnal a chadw ffyrdd yn golygu ein bod yn methu dal lan â'r dirywiad naturiol sy'n digwydd i wynebau'r ffyrdd. Mae hyn yn waeth o achos y rhestr aros hirfaith am waith cynnal a chadw.

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ ✗	Sylw ar Gynnydd
<p>Byddwn yn lleihau cymaint â phosibl ar % y ffyrdd dosbarth B sydd mewn cyflwr gwael (PAM/021)</p> <p>(Canlyniad 2017/18 – 3.1% / Targed 2018/19 - 4.1%)</p>	✗	<p>Mae 4.2% o ffyrdd B mewn cyflwr gwael (parth coch) ar gyfer 2018/19; nid yw hyn yn cydymffurfio â'r targed ac mae'n ddirywiad ers y flwyddyn flaenorol. Mae gan Sir Gaerfyrddin yr ail rwydwaith priffyrdd mwyaf yng Nghymru sy'n cynnwys 331km o ffyrdd dosbarth 'B', ac er bod cyllid diweddar gan Lywodraeth Cymru i adnewyddu ffyrdd wedi helpu, mae lefelau buddsoddi cyffredinol a diffyg cyllid hirdymor ar gyfer cynnal a chadw ffyrdd yn golygu ein bod yn methu dal lan â'r dirywiad naturiol sy'n digwydd i wynebau'r ffyrdd. Mae hyn yn waeth o achos y rhestr aros hirfaith am waith cynnal a chadw.</p>
<p>Byddwn yn lleihau % y ffyrdd dosbarth C sydd mewn cyflwr gwael (PAM/022)</p> <p>(Canlyniad 2017/18 - 11.9% / Targed 2018/19 - 13%)</p>	✓	<p>Mae 12.5% o ffyrdd C mewn cyflwr gwael (parth coch) ar gyfer 2018/19, ac er bod hyn yn cydymffurfio â'r targed, mae hwn yn ddirywiad ers y flwyddyn flaenorol. Mae'r canlyniad hwn yn cydymffurfio â'r targed, ond mae'r ganran gyffredinol sy'n goch wedi cynyddu ers y llynedd, er dim cymaint â'r disgwyl. Roedd canlyniadau 2017 yn dangos bod 38.3% (958km) o ffyrdd C yn y cyflwr Ambr (ymchwiliad yn yr arfaeth yn fuan). Mae hon yn gyfran sylweddol o'r rhwydwaith ac mae'r cyfraddau dirywio wedi arwain at fwy o ddarnau ambr yn troi'n goch na'r hyn y rhoddwyd sylw iddynt o fewn cyfyngiadau'r cyllid sydd ar gael yn y blynyddoedd diwethaf. Yn y bôn nid ydym yn cadw lan â'r dirywiad yn nghyflwr y ffyrdd.</p>
<p>Byddwn yn lleihau i'r graddau mwyaf posibl ganran y prif ffyrdd (A), ffyrdd heblaw prif ffyrdd (B) a ffyrdd heblaw prif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol (THS/012)</p> <p>(Canlyniad 2017/18 – 9.3% / Targed 2018/19 – 10.2%)</p>	✗	<p>Canlyniad 2018/19 - 10.1%</p> <p>Mae % y ffyrdd dosbarth A, B ac C yn Sir Gaerfyrddin sydd mewn cyflwr gwael (parth coch) wedi cynyddu, gyda'r ffyrdd dosbarth A yn cynyddu o 4.1% i 5.2%, ffyrdd B o 3.1% i 4.2%, a ffyrdd C o 11.9% i 12.5%. Mae'r cynnydd cyffredinol yn y ffyrdd sydd mewn cyflwr gwael (parth coch) y llynedd yn cyfateb i tua 180km o ffyrdd, ac mae hwn yn ddarn sylweddol o'r rhwydwaith. Nid yw'r lefelau buddsoddi presennol yn dal lan â'r dirywiad. Bydd achos ariannu ychwanegol yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru er mwyn mynd i'r afael â'r darnau 'coch' a hefyd gofyn am fwy o fuddsoddiad mewn gwaith cynnal a chadw ataliol.</p>
B - Byddwn yn parhau â'r rhwydwaith trafniadaeth gyhoeddus integredig llwyddiannus		
<p>Byddwn yn gweithio gyda Phartneriaid Awdurdod Lleol Rhanbarthol i ddatblygu cynlluniau ar gyfer Metro i Dde a Gorllewin Cymru. (Cyf. 13274)</p>	✓	<p>Mae ymchwil wedi ei gwneud i ddogfen gwmpasu ac mae wedi'i pharatoi. Mae Dinas a Sir Abertawe yn comisiynu cam 2 o'r prosiect. Mae swyddogion yn rhoi mewnbwn i'r prosiect.</p>
<p>Byddwn yn anelu at sicrhau bod gan o leiaf 79% o oedolion 60+ gerdyn teithio rhatach (THS/007)</p> <p>(Canlyniad 2017/18 - 80.6% / Targed 2017/18 - 75%)</p>	✓	<p>Ar ddiwedd mis Mawrth 2019, 81.4% o oedolion 60+ i ddal tocyn teithio rhatach yn Sir Gaerfyrddin.</p>
C - Ein bwriad fydd ailddylunio ein rhwydwaith cludiant ysgol er mwyn cefnogi'r Rhaglen Moderneiddio Addysg		
<p>Byddwn yn parhau i gefnogi darparu'r Rhaglen Moderneiddio Addysg - ailgynllunio rhwydweithiau er mwyn hwyluso symudiad</p>	✓	<p>Rydym yn dal i weithio gyda'r Adran Addysg i ddarparu'r gofynion trafniadaeth sy'n deillio o'r Rhaglen Moderneiddio Addysg, gyda'r rhwydwaith yn</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ ✗	Sylw ar Gynnydd
disgyblion fel y nodir yn ein polisi cludiant o'r cartref i'r ysgol. (Cyf. 13275)		cael ei ailddylunio a'i ddiwygio i sicrhau trefniadau trafndiaeth hwylus ar gyfer disgyblion.
D - Parhau i gefnogi trafndiaeth gymunedol.		
Byddwn yn gweithio gyda'r gymuned a Chynghorau Sir Ceredigion a Phenfro a Llywodraeth Cymru i helpu i gynnal gwasanaethau trafndiaeth integredig Bwcabus/LINC a gwasanaethau strategol allweddol. (Cyf. 13276)	✓	Rydym yn parhau i edrych ar ffrydiau ariannu allanol posibl, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru ar ei hadolygiad ei hun i ddarpariaeth gwasanaethau o'r fath fel rhan o'i hymgyngoriad ynghylch gwasanaethau bysiau.
E - Cyflawni ein hamcanion a bennwyd yn ein Strategaeth Diogelwch Ffyrdd.		
Byddwn yn lobiö Llywodraeth Cymru i gynyddu'r cyllid er mwyn gallu datblygu Llwybrau Diogel mewn Cymunedau gan sicrhau bod mwy o gymunedau'n gallu cael palmentydd a llwybrau cerdded newydd. (Cyf 13277) MF5-7	✓	Mae swyddogion yn gweithio gyda chymunedau i gefnogi llunio ceisiadau Llwybrau Diogel ac maent wedi llwyddo i sicrhau cyllid grant i gyflawni cynlluniau. Mae swyddogion wedi gwneud sylwadau yn y Bwrdd Teithio Llesol cenedlaethol i gynnal cyllid ar gyfer Llwybrau Diogel mewn Cymunedau. Mae swyddogion yn parhau i ddatblygu ceisiadau am gyllid i gyflawni cynlluniau Teithio Llesol.
Byddwn yn ennill y grym i orfodi troseddau sy'n ymwneud â thraffig sy'n symud drwy geisio cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru. (Cyf. 13278)	✓	Pwerau a gafwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2018. Mae'r offer wedi'i gaffael a'i gomisiynu, ac aeth yn fyw ym Mawrth 2019.
Byddwn yn gweithio i ostwng nifer y bobl sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar y ffyrdd er mwyn cyrraedd y gostyngiad o 40% erbyn 2020 (5.5.2.21) (Canlyniad 2017/18 - 83 / Targed 2018/19 - 81)	✗	Cafodd 97 o bobl eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Sir Gaerfyrddin yn 2018. Er na allwn reoli nifer y digwyddiadau traffig ffordd ar rwydwaith ffyrdd y sir, rydym yn gweithio gydag asiantaethau partner i annog pobl i ddefnyddio'r ffordd yn fwy diogel, ymgysylltu â grwpiau defnyddwyr ffordd risg uchel (beicwyr modur, yr henoed, gyrwyr ifanc), buddsoddi mewn prosiectau peirianeg diogelwch ffyrdd a dargedir, helpu'r Heddlu ag ymgyrchoedd gorfodi rheolau cyflymder a mynd i'r afael â phryderon ynghylch goryrru.
Byddwn yn gweithio i ostwng nifer y gyrwyr beiciau modur sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar y ffyrdd er mwyn cyrraedd y gostyngiad o 25% erbyn 2020 (5.5.2.22) (Canlyniad 2017/18 - 19 / Targed 2018/19 - 15)	✗	Cafodd 20 o yrwyr beiciau modur eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Sir Gaerfyrddin yn 2018. Rydym yn parhau i weithio'n galed gyda'n hasiantaethau partner i leihau damweiniau beiciau modur. Mae ein tîm yn aml yn mynychu digwyddiadau i hyrwyddo beicio modur diogel ac yn mynd allan yn rheolaidd i leoliadau beicio modur adnabyddus i ymgysylltu â reidwyr. Hefyd rydym yn buddsoddi mewn prosiectau peirianeg diogelwch ar y ffyrdd a dargedir ac yn helpu'r Heddlu ag ymgyrchoedd diogelwch a gorfodi rheolau cyflymder. Mae'r Cyngor Sir yn parhau i weithio'n galed ar y cyd â'n hasiantaethau partner i leihau damweiniau ar feiciau modur. Yn aml mae ein tîm yn mynychu digwyddiadau i hyrwyddo beicio modur diogel ac yn

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
		mynd allan yn rheolaidd i leoliadau beicio modur er mwyn ymgysylltu â reidwyr. Rydym hefyd yn buddsoddi mewn prosiectau peirianeg diogelwch ar y ffordd a dargedir ac yn helpu'r Heddlu ag ymgyrchoedd diogelwch a gorfodi rheolau cyflymder.
Byddwn yn gweithio i ostwng nifer y bobl ifanc (rhwng 16-24 oed) sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar y ffyrdd er mwyn cyrraedd y gostyngiad o 40% erbyn 2020 (5.5.2.23) (Canlyniad 2017/18 - 24 / Targed 2018/19 - 23)	✓	Bu gostyngiad bach o 24 i 19 yn nifer y bobl ifanc (16-24 oed) a laddwyd ac a anafwyd yn ddifrifol ar ffyrdd Sir Gaerfyrddin yn ystod 2018. Parhawn i weithio gydag asiantaethau partner i annog defnydd mwy diogel o'r ffordd, ymgysylltu â grwpiau defnyddwyr ffordd risg uchel (beicwyr modur, yr henoed, gyrrwyr ifanc), buddsoddi mewn prosiectau peirianeg diogelwch ffordd wedi'u targedu, helpu'r Heddlu ag ymgyrchoedd gorfodi rheolau diogelwch, a mynd i'r afael â phryderon cymunedol ynghylch goryrru.
F – Moderneiddio ein fflyd cerbydau		
Byddwn yn cwblhau ein buddsoddiad mewn cerbydau newydd yn ystod y flwyddyn, yn unol â'n rhaglen adnewyddu'r fflyd strategol. (Cyf 13279) MF5-5	✓	Mae'r holl asedau a glustnodwyd ar gyfer rhaglen cerbydau newydd 2018/19 wedi cael eu cyflwyno. Mae'r ymarfer tendro ar gyfer 5 bws cymdeithasol wedi'i gwblhau ac maent wedi'u harchebu, i'w dosbarthu erbyn mis Tachwedd 2019. Mae amryw asedau cynnal a chadw tiroedd wedi'u nodi i'w cyfnewid erbyn y tymor torri newydd, a byddant yn cael eu harchebu cyn hir. Gwaredwyd nifer o asedau yn 2018/19 gyda golwg ar eu cyfnewid am fodolau mwy effeithlon neu leihau niferoedd y fflyd. Mae asedau ychwanegol wedi'u hychwanegu at raglen adnewyddu'r fflyd gan gynnwys car camera gwyliadwriaeth a chwythwr eira cynnal a chadw dros y gaeaf. Mae'r holl adnewyddiadau arfaethedig ar gyfer 2019/20 wedi cael eu nodi, neu cydnabyddir bod angen eu hadnewyddu gydag ymarferion caffael wedi'u cynnal i ddiwallu'r gofynion hyn.